

Ymgynghoriad ar Gynigion Cynnar i ddatblygu Model Cyflenwi'r Dyfodol ar gyfer Rheolaethau Swyddogol a Gyflenwir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn y Sector Cig

Dyddiad lansio: 28 Mai 2021

Ymateb erbyn: 23 Gorffennaf 2021

Bydd yr ymgynghoriad hwn o'r diddordeb mwyaf i:

- Ddefnyddwyr
- Y diwydiant cig (Gweithredwyr Busnesau Bwyd, Cyrff Masnach y diwydiant cig), Sefydliadau sicrwydd trydydd parti ar gyfer cig , Cyrff Masnach proffesiynol a chyrrff masnach eraill (milfeddygol, hylendid cig, diogelwch bwyd, safonau masnachu, buddiannau busnesau), Darparwyr arolygiadau hylendid cig ac adnoddau milfeddygol masnachol
- Partneriaid masnach rhyngwladol
- Manwerthwyr (archfarchnadoedd)
- Adrannau rheoleiddiol a pholisi'r llywodraeth (milfeddygol ac arolygiadau diogelwch bwyd, Ysgrifenyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd (UE), gweinyddiaethau datganoledig, iechyd yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd, masnach ac adrannau eraill), Awdurdodau lleol
- Undebau Llafur

Pwnc yr ymgynghoriad

Ymgynghoriad ar gynigion cynnar i ddatblygu Model Cyflenwi'r Dyfodol ar gyfer Rheolaethau Swyddogol a ddarperir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn y sector cig.

Pwrpas yr ymgynghoriad

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn rhanddeiliaid ar gynnig cynnar i ddiwygio Rheolaethau Swyddogol a ddarperir gan yr ASB yn y sector cig fel rhan o'n proses casglu tystiolaeth ehangach. Datblygwyd y cynigion cynnar hyn gan Raglen Trawsnewid Gweithredol yr ASB ac fe'u nodir mewn Model Cyflenwi'r Dyfodol (FDM) sy'n ymdrin â saith maes allweddol.

Llunio model cyflenwi amlinellol ar gyfer y dyfodol yw cam cyntaf y gweithgarwch diwygio hwn, ac mae'n bwysig ein bod ni'n gweithio ar y cyd ag ystod eang o randdeiliaid i helpu i lywio'r dyfodol. Nid yw'r FDM yn gynllun terfynol. Dyma ein barn ni o ran lle y gellid gwella a moderneiddio'r system reoleiddio gyfredol yn y maes hwn. Rydym ni am gael mewnwelediad i sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar ddefnyddwyr, y diwydiant, manwerthwyr, rhannau eraill o'r llywodraeth ac awdurdodau lleol, a chasglu adborth, awgrymiadau a chynigion gwahanol gan bartion â diddordeb cyn symud ymlaen ymhellach gyda'r gwaith hwn. Mae'r cynigion yn iteraidd (*iterative*) a byddant yn parhau i siapiau wrth i ni ddatblygu'r FDM. Ar ôl i agweddau ar yr FDM gael eu cynllunio'n fanylach, byddwn ni'n cynnal ymgynghoriadau pellach ar unrhyw ddewisiadau neu argymhellion cyn eu gweithredu.

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad at: OTP@food.gov.uk


Manylion yr ymgynghoriad

Cyflwyniad

Nod y Rhaglen Trawsnewid Gweithredol yw moderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Rheolaethau Swyddogol a ddarperir yn uniongyrchol gan yr ASB yn y sectorau cig, llaeth a gwin, er o ystyried y raddfa gymharol, mae'r gweithgarwch diwygio cychwynol yn canolbwyntio ar y sector cig i gael yr effaith fwyaf.

Mae'r rhaglen wedi cytuno ar set o egwyddorion sy'n ganolog i'r rhaglen hon i gefnogi ein cenhadaeth i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ac i fod yn llais dibynadwy dros safonau bwyd er budd y defnyddiwr.

Dyma ein hegwyddorion:



Mae'r model arfaethedig yn archwilio meysydd diwygio posibl i'w cyflwyno'n raddol dros y blynyddoedd i ddod ac mae'n ymwneud â defnyddio ffyrdd modern o weithio, gan gynnwys technoleg a deallusrwydd, yn ogystal â dull cymesur, sy'n fwy seiliedig ar risg, i wneud y gwaith a wnawn yn fwy effeithiol. Rydym ni'n cydnabod y gallai hyn olygu ar ryw adeg y

gallai agweddau pwrpasol ar gyflenwi rheolaethau swyddogol yn gyffredinol esblygu ar gyfer marchnadoedd domestig ac allforio. Rydym ni hefyd yn cydnabod bod gwledydd sy'n mewnfario yn gosod eu disgwyliadau eu hunain ar gyfer y ffordd y mae allforwyr yn sicrhau diogelwch bwyd a byddwn ni'n ystyried y rhain wrth i ni ddatblygu ein syniadau ymhellach.

Achos dros Newid

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae'r ASB wedi gweithio i gadw defnyddwyr yn ddiogel, gwella ymddiriedaeth defnyddwyr y DU mewn diogelwch bwyd, cefnogi twf a arweinir gan allforio a gweithredu model rheoleiddio bwyd llwyddiannus.

Fodd bynnag, mae datblygiadau byd-eang a domestig sy'n newid yn barhaus, ac sy'n ail-lunio system fwyd y DU yn gyflym. Mae ein tystiolaeth a'n hymchwil yn dangos bod sawl ffactor sy'n cynyddu pwysau ar ein model cyflenwi cyfredol, gan gynnwys:

- Mae technoleg yn newid cyflymder a dulliau cynhyrchu bwyd.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol o ran faint o ddata sydd ar gael, trwy berthnasau cyflenwyr/cwsmeriaid, a'r data hwnnw'n cael ei ddefnyddio ar draws y diwydiant.
- Mae COVID-19 wedi tynnu sylw at yr heriau a achosir gan natur y model cyfredol, sy'n ddwys o ran adnoddau, ynghyd â chynnig cyfleoedd i weithio'n wahanol.
- Nid yw'r model cyfredol yn cymell cydymffurfiaeth yn sylweddol, gan nad yw gweithgarwch rheoleiddio a brofir gan weithredwyr busnesau bwyd sy'n cydymffurfio yn sylweddol wahanol. Nid yw'r drefn reoleiddio yn ystyried cydymffurfiaeth cyson yn ddigonol ac mae'n adlewyrchu hyn yn natur, dwyster ac amllder Rheolaethau Swyddogol.
- Mae diwedd y Cyfnod Pontio wedi cael effaith sylweddol ar yr adnoddau sydd eu hangen i roi'r sicrwydd angenrheidiol i bartneriaid masnachu am system rheoli bwyd y DU, gan gynnwys trwy fwy o reolaethau mewnfario ac allforio ac, ochr yn ochr â hynny, mae wedi effeithio ar y trefniadau ar gyfer recriwtio adnoddau milfeddygol o aelod-wladwriaethau'r UE. Mae hyn wedi arwain at bwysau cynyddol ar argaeledd adnoddau sydd eu hangen i gyflawni Rheolaethau Swyddogol a sicrhau bod y lefelau

uchel presennol o ddiogelwch bwyd yn cael eu cynnal, llinell sylfaen nad yw'r ASB yn fodlon cyfaddawdu arni er budd defnyddwyr.

Mae'r datblygiadau hyn, ynghyd â chostau cyflenwi cynyddol, yn golygu mai nawr yw'r amser priodol i symud ymlaen â Rhaglen Trawsnewid Gweithredol yr ASB.

Yn ddomestig, er bod ymadael â'r UE a thelerau Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE/Deyrnas Unedig (DU) yn creu'r cyfle i adolygu trefn Rheolaethau Swyddogol Cymru a Lloegr, dylai'r rhaglen gyflenwi yng nghyd-destun fframweithiau Pedair Gwlad y DU a chydabod pwysigrwydd bodloni gofynion partneriaid masnachu rhyngwladol.

Mae'r ASB yn cydnabod bod y system rheoleiddio bwyd gyfredol wedi aros yn gymharol ddigynffwrdd ers sawl blwyddyn ac yn 2019 gwnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sylwadau mewn perthynas â darparu Rheolaethau Swyddogol: "nid yw'r system reoleiddio [bwyd] bresennol yn gyfredol â newidiadau technolegol, na'r amgylchedd cyfnewidiol, ac mae'n dod yn anghynnaladwy".¹


I grynhoi, ni ddyluniwyd y model cyfredol fel system o'r dechrau i'r diwedd ac mae llawer o brosesau ychwanegol wedi cael eu hychwanegu dros nifer o flynyddoedd i ddatrys problemau penodol. O ganlyniad, mae'r model erbyn heddiw yn feichus, yn gymhleth, ac nid yw bob amser yn unol â chyfeiriad strategol yr ASB. Mae gan y prosesau cymhleth hyn lawer o drosglwyddiadau sy'n cyflwyno risg ac aneffeithlonrwydd ychwanegol y mae'n rhaid i'r Rhaglen Trawsnewid Gweithredol fynd i'r afael â nhw.

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw casglu safbwyntiau cynnar gan randdeiliaid ar y cynigion a nodir isod, cyn bwrw ymlaen â gwaith ar weledigaeth yr ASB yn y maes hwn yn y dyfodol.

¹ Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Sicrhau diogelwch a safonau bwyd, Mehefin 2019

Y cynigion cynnar:

Model cyflenwi 'fel y mae pethau' a 'sut y bydd pethau'




Gellir rhannu'r broses o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer Cyflenwi Rheolaethau Swyddogol gan yr ASB yn bum cam:

- **Cymeradwyaethau** – Cymeradwyaeth fewnol y safleoedd i weithredu. Mae cymeradwyaethau yn gosod y sylfaen ar gyfer defnyddio'r drefn reoleiddio yn y dyfodol ac maent yn hanfodol wrth sicrhau bod busnesau bwyd yn cael eu rhedeg gan unigolion addas, mewn safleoedd priodol sy'n gallu gweithredu System Rheoli Diogelwch Bwyd effeithiol gyda phrosesau a mesurau rheoli cywir.
- **Arolygiadau** – Arolygiad ffisegol o'r cynhyrchion a'r prosesau yw rhan fwyaf dwys y model cyfredol o ran adnoddau (treulir oddeutu 1.2 miliwn o oriau'r flwyddyn ar arolygiadau). Mae angen arolygu i sicrhau bod cynhyrchion yn parhau i fodloni'r safonau hylendid a diogelwch priodol, a lle bo'n briodol, safonau lles.
- **Samplu a gwirio** – Gweithgarwch samplu swyddogol ar gyfer ystod o ofynion. Rhan fach o'r model cyfredol yw hon ac mae'n rhoi cipolwg bod rhai safonau penodol allweddol yn cael eu bodloni mewn sampl fach o gynhyrchion sy'n cael eu cynhyrchu, fel arfer ar ddiwedd proses gynhyrchu.
- **Archwiliadau** – Mae archwiliadau milfeddygol/technegol sy'n seiliedig ar risg o brosesau trwy ymweliad ar y safle yn rhan bwysig o'r model cyflenwi sy'n caniatáu i'r ASB ddilysu bod gan weithredwyr busnesau bwyd yr holl systemau a'r mesurau rheoli angenrheidiol ar waith i sicrhau lefelau uchel o gydymffurfiaeth â chyfraith diogelwch bwyd. Mae archwiliadau'n asesu'r hyn y mae gweithredwr y busnes bwyd yn dweud y byddant yn ei wneud i gydymffurfio â'r safonau gofynnol yn erbyn yr hyn y maent yn ei wneud mewn gwirionedd. Mae archwiliadau hefyd yn gyfle i ryngweithio gyda'r cynhyrchydd a'i addysgu mewn modd partneriaeth i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

- **Gorfodi** – Mae gweithdrefnau gorfodi anffurfiol a ffurfiol yn caniatáu i'r ASB fel y rheoleiddiwr gefnogi busnesau i unioni unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio, a chymryd camau cyflym ac effeithiol i atal cynhyrchu, os oes angen. Mae gorfodi'n digwydd mewn ffordd gymesur sy'n seiliedig ar risg yn unol â Choncordat Gorfodi'r Gwasanaeth Sifil a dim ond ar ôl rhoi cynnig ar pob dull arall, oni bai bod materion yn codi sydd mor ddifrifol fel bod angen cymryd camau gorfodi ar unwaith.

Yn y model 'fel y mae pethau', mae mwyafrif y rheolaethau hyn yn cael eu cyflawni gan staff cyflogedig sydd â chontract gan yr ASB, gydag ychydig iawn yn ymestyn i'r diwydiant neu i drydydd partïon (mae trydydd partïon yn cyfeirio at gynlluniau sicrwydd preifat, er enghraifft Sicrwydd Tractor Coch). Mae angen rhoi rhagor o gyfrifoldeb i'r diwydiant i gyflawni eu prif gyfrifoldeb am gynhyrchu bwyd yn gyson i'r safonau gofynnol, gyda'r ASB fel y rheoleiddiwr, yn monitro ac yn gwirio bod hyn yn digwydd. Fel y cynrychiolir yn y diagram isod, arolygiad yr ASB yw'r gweithgarwch mwyaf ar hyn o bryd o ran adnoddau, yn bennaf oherwydd y gofyniad deddfwriaethol i gael archwiliad ante/post mortem.

Mae'r diagram 'fel y bydd pethau', isod, yn cynnig symud i ffwrdd o'r model 'un dull i bawb' a reolir gan yr ASB yn bennaf, trwy gymryd dull wedi'i deilwra, seiliedig ar risg a symud tuag at ddiwydiant sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd am rannau o archwilio carcassau. Bydd hyn yn gofyn am newid deddfwriaethol, nad yw'r manylion wedi'u ddiffinio eto. O safbwynt yr ASB, rhoddir llawer mwy o bwyslais ar weithgareddau sicrwydd – dim ond un adran o'r gweithgareddau hyn yw archwilio.




Model Cyflenwi'r Dyfodol (FDM)

Dyluniwyd Model Cyflenwi'r Dyfodol (FDM) i fod yn gyson ag egwyddorion ac amcanion dylunio'r Rhaglen Trawsnewid Gweithredol (OTP). Dyma grynhoi agweddau allweddol y model:

- Fel y Rheoleiddiwr, dylai'r ASB osod y fframwaith cadarn o safonau craidd a gweithio gyda'r diwydiant mewn dull partneriaeth hyblyg i sicrhau bod y drefn reoleiddio yn gymesur, yn hyblyg ac wedi'i thargedu tra'n cael gwared ar feichiau/rhwysrau diangen. Bydd hyn yn ei **gwneud yn haws** i'r diwydiant gydymffurfio tra bo'r ASB yn parhau i fod yn gadarn yn ei dull tuag at y busnesau hynny nad ydynt yn dilyn y rheolau.
- Gan weithredu **er budd y defnyddiwr**, yr ASB fydd y **llais dibynadwy** ar safonau diogelwch bwyd a lles anifeiliaid. Bydd mecanweithiau sicrwydd cadarn newydd yn gwirio bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu bodloni.
- Disgwylir i weithredwyr busnesau bwyd barhau i gynhyrchu bwyd diogel i'r safonau hylendid a diogelwch gofynnol a chytunedig.
- Bydd mentrau ar y cyd rhwng yr ASB a gweithredwyr busnesau bwyd yn seiliedig ar "gydnabyddiaeth a enillir" i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr. Bydd rhannu data a chydymffurfiaeth dryloyw yn nodi arfer gorau (i'w rannu) yn ogystal â lle mae angen gwelliannau.
- Bydd yr ASB yn **cynyddu effeithlonrwydd** wrth ddefnyddio adnoddau, a bydd ymyriadau'n cael eu targedu at y meysydd hynny sydd yn peri risgiau diogelwch bwyd uwch.
- Bydd gwell arolygiadau a sicrwydd, ochr yn ochr â threfn codi tâl gadarn, dryloyw yn galluogi'r model newydd i **wneud gwahaniaeth** trwy barhau i ddiogelu budd defnyddwyr ac iechyd y cyhoedd wrth hyrwyddo twf a chefnogi masnach.

Mae dyluniad cynnar yr FDM arfaethedig wedi'i ddatblygu trwy ymgysylltu'n ofalus â rhanddeiliaid allweddol yn fewnol ac yn allanol, a gyda chyrff cynrychioliadol y diwydiant (trwy Cyd-weithgor y Diwydiant) yn ein helpu i ddeall a llunio'r elfennau. Rydym ni hefyd yn ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr ac adrannau llywodraeth priodol eraill a Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae'r model wedi'i gategoreiddio'n **saith elfen allweddol**, i hwyluso trawsnewid a chynorthwyo cynllunio, cyflawni a monitro:



Mae'r OTP wedi nodi'r elfennau hyn fel y cydrannau allweddol sy'n ofynnol i gyflawni'r trawsnewid a ddymunir o fewn yr ASB a'r amgylchedd rheoleiddio ehangach.

Atebolrwydd Cliriach

Mae'r diwydiant yn parhau i fod yn atebol am gynhyrchu bwyd diogel, a bydd yr ASB yn monitro ac yn gwirio hyn, fel y rheoleiddiwr. Bydd hyn yn caniatáu i'r ASB a'r diwydiant fod yn gliriach o ran atebolrwydd a chydweithio'n fwy effeithiol er budd gorau'r defnyddwyr. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cymryd rhagor o gyfrifoldeb am weithgareddau arolygu dyddiol, gyda'r ASB, fel rheoleiddiwr, yn gyfrifol am sicrhau'r gweithgarwch hwn. Bydd perthynas gydweithredol gryfach yn sicrhau rolau a chyfrifoldebau rheoleiddiwr/gweithredwr busnes bwyd clir ac yn anelu at sicrhau lefelau uwch o gydymffurfiaeth, gan gryfhau ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr mewn safonau diogelwch bwyd yn y pen draw.

Tystiolaeth i Gefnogi hyn:

Mae ymchwil a gomisiynwyd gan OTP wedi nodi bod y cymhellion canlynol yn cymhell gweithredwyr busnesau bwyd y DU i wella cydymffurfiaeth:

- Perthynas gadarnhaol â'r awdurdodau rheoleiddio a'u parodrwydd i gymryd rhan mewn trafodaeth.
- Archwiliadau llai aml, rhagor o dryloywder, a gwell dealltwriaeth o weithgareddau gorfodi.
- Amgylchedd wedi'i reoleiddio'n uchel sy'n arwain at fwy o foeseg sy'n gysylltiedig â busnes/diogelwch wrth iddo gynyddu'r tebygolrwydd o ganfod problemau.

Mae gwaith meincnodi rhyngwladol a gomisiynwyd gan OTP ar reoleiddwyr cig eraill hefyd wedi nodi bod atebolrwydd cliriach yn debygol o sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr a'r diwydiant.

Manteision:

- Bydd mentrau ar y cyd amlwg yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau ddeall eu rôl yn y system fwyd, a ddylai helpu i **wella cydymffurfiaeth** a gyrru lefelau uwch o **hyder ac ymddiriedaeth defnyddwyr**.
- **Gwell gwerth am arian** – gall atebolrwydd cliriach arwain at ddsbarthu costau yn fwy effeithlon, gan helpu i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar fusnesau o wahanol feintiau.
- Bydd atebolrwydd cliriach yn annog **arloesedd** o fewn y diwydiant wrth geisio, cynnig a chreu ffyrdd newydd, effeithlon o weithio.

Heriau:

- Annog gweithio ar y cyd – mae angen meithrin diwylliant o ymddiriedaeth ar draws pob ochr. Ni allwn ni orfodi gweithio ar y cyd ac felly mae angen ymgysylltu a dylanwadu sylweddol i sicrhau bod y diwydiant yn deall ei rôl a sut y gall yr ASB barhau i'w gefnogi wrth symud ymlaen.
- Camsyniad y bydd atebolrwydd cliriach yn lleihau effeithiolrwydd rheoleiddiol.

Beth yw eich barn ar gynigion yr ASB ym maes atebolrwydd cliriach?

Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol ydych chi'n meddwl y gallai'r newidiadau hyn eu cael?

Presenoldeb wedi'i deilwra

Bydd presenoldeb yr ASB yn cael ei deilwra yn unol â risg y safleoedd/cynhyrchion unigol (yn seiliedig ar asesïadau cymharol trwy fethodoleg segmentu wrthrychol, safonol a thryloyw). Bydd adnoddau'n cael eu pwysoli'n fwy tuag at safleoedd sy'n peri risg uwch o ran diogelwch bwyd, gyda rhai safleoedd risg is sydd wedi dangos cydymffurfiaeth systematig a hirdymor yn destun lefelau is o bresenoldeb yr ASB nag o dan y model cyfredol.

Tystiolaeth i Gefnogi hyn:


- Mae'r ASB wedi gweld cynnydd sylweddol mewn costau gweithredol dros y 4 blynedd diwethaf tra bo'r mewnbwn wedi cynyddu ychydig yn unig, ac mae lefelau cydymffurfio wedi aros yn wastad.
- Mae gwaith meincnodi rhyngwladol rheoleiddwyr cig eraill (a Chod Rheoleiddiwr y DU) yr OTP a gomisiynwyd hefyd yn nodi bod rheoleiddio yn fwy effeithiol pan fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar risg.
- Mae Swyddfa'r Cabinet wedi gofyn i'r ASB ddylunio model cyflenwi newydd i leihau dibyniaeth ar gyflenwr marchnad sengl ar gyfer y gwasanaeth arolygu cig. Bydd teilwra presenoldeb yr ASB yn cyfrannu at leihau'r ddibyniaeth hon.

Manteision:

- Bydd targedu presenoldeb yr ASB yn y meysydd sydd â'r risg uchaf yn parhau i sicrhau bod **bwyd yn ddiogel** mewn byd sy'n newid.
- Gallai presenoldeb rheoleiddiol priodol, gyda gostyngiadau i fusnesau sy'n cydymffurfio, ysgogi gwelliannau mewn lefelau cydymffurfio cyffredinol. Gallai hyn gael gwared ar y baich oddi ar weithredwyr busnesau bwyd sy'n cydymffurfio a allai arwain at dwf busnes a thwf economaidd.
- **Cynyddu effeithlonrwydd** trwy ddefnyddio arbenigedd ac adnoddau'r ASB yn well.

Heriau:

- Gallai llai o bresenoldeb mewn rhai safleoedd effeithio ar lefelau cydymffurfio yn y lleoliad hwnnw, ond bydd trefn sicrwydd mwy cadarn a arweinir gan wybodaeth yn lliniaru'r risg hon.
- Bydd methu â sicrhau newidiadau i ddeddfwriaeth yn golygu na all yr ASB gyflawni'r buddion cydymffurfio a'r effeithlonrwydd ariannol ac adnoddau y bydd teilwra presenoldeb rheoleiddiol yn eu caniatáu.
- Gallai symud i ffwrdd oddi wrth arolygu llawn amser beryglu masnach (sy'n cyfrif am £15.7 biliwn y flwyddyn i economi'r DU) os yw ein huchelgeisiau yn cael eu camddehongli fel gostwng safonau. Mae ymgysylltu'n agos â phartneriaid masnach rhyngwladol, yn enwedig yr UE, yn ogystal â naratif clir iawn o ran y dull newydd o gynyddu lefelau cydymffurfio, yn hanfodol i liniaru risg.
- Cydnabyddir y gallai fod angen dulliau pwrpasol yn y dyfodol ar gyfer y marchnadoedd domestig ac allforio. Dylid pwysleisio nad oes unrhyw ostyngiad arfaethedig mewn safonau domestig ond yn hytrach bwriad i gynyddu lefelau cydymffurfio.



Cyfundrefn Sicrwydd Cadarn

Bydd yr ASB yn defnyddio set gadarn a chdir o offer a thechnegau i sicrhau lefel uchel o sicrwydd ar draws pob cam o waith cyflenwi Rheolaethau Swyddogol. Bydd un swyddogaeth Sicrwydd yr ASB, medrus a phrofiadol iawn yn gweithio gyda gweithredwyr busnesau bwyd, o bell ac ar y safle, ar sail risg a deallusrwydd, i godi safonau, nodi a rhannu arfer gorau a chymryd y camau priodol mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Bydd yr ASB yn gweithio gyda sefydliadau sicrwydd a manwerthwyr eraill i rannu data a deallusrwydd i dargedu ein gweithgareddau sicrwydd yn well.

Tystiolaeth i Gefnogi hyn:


- Mae Rhaglen Archwilio bresennol yr ASB wedi dangos sicrwydd da dros y blynyddoedd diwethaf, gyda lefelau cydymffurfio yn codi i 98.5% ar gyfartaledd. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau mewn technegau archwilio, mae 1.5% o safleoedd yn dal i gael eu hasesu fel 'Angen Gwella' ac 'Angen Gwella ar Frys' ar unrhyw adeg benodol ac mae angen rhoi sylw pellach iddynt.
- Mae ymchwil a gomisiynwyd gan yr OTP wedi nodi bod amlder gweithgareddau archwilio, tryloywder a gorfodi yn ogystal ag amgylchedd wedi'i reoleiddio'n uchel yn cymell gweithredwyr busnesau bwyd y DU i gydymffurfio.

Manteision:

- Bydd ystod o ddulliau sicrwydd yn darparu rhagor o wybodaeth a fydd yn helpu'r ASB i barhau i sicrhau bod **bwyd yn ddiogel** mewn byd sy'n newid.
- Mae rhagor o sicrwydd yn ysgogi gweithredwyr busnesau bwyd i **wella cyfraddau cydymffurfio**, gan arwain at ganlyniadau gwell.
- Bydd gweithgarwch sicrwydd o'r dechrau i'r diwedd yn **cynyddu sgiliau a gallu presennol** swyddogion yr ASB, gan **gynyddu ymatebolrwydd yn y dyfodol**.

Heriau:

- Mae cynnydd mewn gweithgarwch sicrwydd yn dibynnu ar adnoddau (pobl, TG a data). Ein nod yw moderneiddio ein gallu gweithredol ymhellach i sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'n pobl, eu profiad a'u sgiliau trwy gael gwared ar weithgareddau nad ydynt yn ychwanegu gwerth.
- Gallai rhagor o weithgarwch sicrwydd arwain at nodi cynnydd mewn safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio, gan arwain, yn gychwynnol, at gynnydd tymor byr yn yr adnoddau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio. Er y gall hyn ymddangos yn negyddol o safbwynt ystadegol, bydd hyn yn y pen draw yn ein helpu o ran ein gallu rheoleiddiol trwy roi gwell darlun i ni a chynyddu lefel y sicrwydd y gallwn ni ei ddarparu.



Beth yw eich barn am gynigion yr ASB i wella ei gweithgareddau sicrwydd?

Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol ydych chi'n meddwl y gallai'r newidiadau hyn eu cael?

Cydymffurfiaeth Tryloyw

Bwriad yr ASB yw gweithio gyda'r diwydiant ar y ffordd orau i gyhoeddi a rhannu gwybodaeth gydymffurfio er mwyn annog cynnydd cyffredinol mewn safonau ac i roi mwy o hyder i ddefnyddwyr.

Tystiolaeth i Gefnogi hyn:


- Mae gwaith meincnodi rhyngwladol wedi nodi y gall cyhoeddi data cydymffurfio gael effaith gadarnhaol ar gyfraddau cydymffurfio. Er enghraifft, mae'r Unol Daleithiau yn cyhoeddi'r holl ddata cydymffurfio ar-lein, ac mae Seland Newydd yn rhannu data cydymffurfio rhwng cyfoedion a nodwyd (y rhai sy'n cynhyrchu pethau tebyg) – y ddau yn effeithiol.
- Mae ymchwil a gomisiynwyd gan yr OTP wedi nodi bod tryloywder â data cydymffurfio yn cael effaith gadarnhaol ar enw da gweithredwyr busnesau bwyd, ac ymddiriedaeth defnyddwyr yn ansawdd y cynnyrch, a gellir dadlau ei fod yn gwella enw da'r ASB fel rheoleiddiwr effeithiol. Gall hyn arwain at alw uwch a phroffidioldeb i weithredwyr busnesau bwyd.

Manteision:

- Gwella gallu manwerthwyr a defnyddwyr i wneud **dewis gwybodus**.
- **Cyfle twf busnes** i weithredwyr busnesau bwyd sy'n gallu dangos lefelau uchel o gydymffurfiaeth.
- Arddangos effaith reoleiddiol yn uniongyrchol, gan arwain at **fwy o hyder yn yr ASB**.
-

Heriau:

- Gall y diwydiant herio beth/sut/pryd y cyhoeddir data. Bydd angen i'r ASB gynnal ymgynghoriad ffurfiol cynhwysfawr cyn ei weithredu.
- Canlyniadau anfwriadol rhannu data – er enghraifft, effaith cyhoeddi data sy'n ymwneud â pherfformwyr gwael ar y farchnad a chynnydd mewn apeliadau. Bydd angen i'r ASB archwilio a lliniaru'r materion hyn yn llawn cyn eu gweithredu, gan gynnal y buddion o rannu data perfformiad yn dryloyw ar yr un pryd.



Data Digidol 'Amser Real' yn Ddiodyn

Dylai'r ASB a gweithredwyr busnesau bwyd gasglu data unwaith, a'i ddefnyddio sawl gwaith at sawl pwrpas, naill ai mewn un system, neu trwy systemau sy'n gallu 'siarad' â'i gilydd.

Tystiolaeth i Gefnogi hyn:

- Mae systemau presennol yr ASB yn aneffeithlon, ac nid ydynt i gyd yn cysylltu mewn ffordd sy'n galluogi'r ASB i gasglu data mewn un man neu fformat y gellir ei ddefnyddio i gynhyrchu gwybodaeth ystyrllon.


- Mae casglu data yn y man mynediad (hynny yw yn y lladd-dy) yn gymysg ac, mewn rhai safleoedd mae systemau digidol ar waith, mewn eraill rydym ni'n ddibynol ar gasglu data yn ysgrifenedig a throsglwyddo'r data i system, gan greu'r risg o anghywirdeb ac aneffeithlonrwydd.

Manteision:

- **Gwell deallusrwydd a gwell gallu** i ddadansoddi a rhagweld.
- Bydd mynediad at wybodaeth amser real, gywir yn galluogi i **benderfyniadau cyflymach a chadarn** gael eu gwneud.

Heriau:

- Gellid ystyried bod cost buddsoddi mewn systemau newydd yn anghymesur â'r manteision.
- Gallai gwell data nodi achosion ychwanegol o ddiffyg cydymffurfio (nas gwelwyd o'r blaen) ar y cychwyn, gan ddifrodi enw da yn y tymor byr. Bydd hyn yn cael ei wrthbwysu gan y gallu i gynyddu sicrwydd yn y tymor hwy.



Moderneiddio'r Broses Reoli

Swyddogaeth reoli symlach ddigidol i gefnogi defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Tystiolaeth i Gefnogi hyn:


- Mae rhai cyfleoedd awtomeiddio wedi'u nodi yn y prosesau gweithredol presennol a allai gynyddu effeithlonrwydd a rhyddhau adnoddau i wneud gwaith â blaenoriaeth uwch.
- Mae sefydliadau eraill yn defnyddio systemau dyrannu adnoddau a datrysiadau digidol yn llwyddiannus i reoli llifoedd gwaith a defnyddio adnoddau, gan wella effeithlonrwydd.

Manteision:

- **Mwy o wytnwch a hyblygrwydd** wrth ymateb i ddigwyddiadau ac achosion (*outbreaks*). Bydd systemau digidol yn cynyddu ein gallu i symud pobl i'r gwaith i ateb gofynion cyn gynted â phosibl.
- **Mwy o effeithlonrwydd** mewn busnesau wrth ddefnyddio adnoddau, er mwyn sicrhau bod y bobl iawn yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Bydd hyn yn **gostwng costau ac yn cynyddu ein dealltwriaeth** o'r sgiliau a'r niferoedd angenrheidiol o bobl i gynnal gweithgarwch gweithredol.
- **Bydd gwell effeithlonrwydd yn cynyddu cyfleoedd** i wneud gwaith gwerthfawr ychwanegol a fydd yn dod â manteision ehangach.
- **Gwell sicrwydd lechyd a Diogelwch** – bydd defnyddio adnoddau digidol yn galluogi'r ASB i nodi lle mae pobl yn gweithio (er enghraifft gweithwyr unigol) ac yn eu cefnogi'n effeithiol yn ôl yr angen.
- **Gallu rhagweld yn well** – wrth i dueddiadau data ddatblygu, byddwn ni'n gallu cynllunio'n well ar gyfer amrywiaethau mewn gweithgarwch (er enghraifft amrywiad tymhorol).

Heriau:

- Efallai y bydd gan Undebau Llafur a staff yr ASB bryderon y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw o ganlyniad i newidiadau i rolau swyddi a chynllun sefydliadol. Bydd hyn yn gofyn am ymgynghori sylweddol a dwyn perswâd er mwyn bod yn llwyddiannus.
- Bydd y diwydiant yn disgwyl i unrhyw gynnydd mewn effeithlonrwydd gael ei ystyried yng nghostau'r ASB. Bydd angen i'r ASB reoli'r disgwyliad hwn.



Capasiti a Gallu Adnoddau

Gweithlu mwy medrus a gwydn sy'n gallu ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau, gan addasu i ofynion busnes sy'n newid ac yn seiliedig ar fodel cyflenwi adnoddau sydd wedi'i gynllunio i gefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Tystiolaeth i Gefnogi hyn:


- Mae tystiolaeth yn dangos bod y lefelau adnoddau cyfredol mewn perygl oherwydd demograffeg oedran.
- Mae ffigurau recriwtio a chadw Partneriaid Cyflenwi Gwasanaeth (SDP) yn parhau i beri risg – rydym ni'n ddibynnol ar yr SDP ar gyfer 99% o'n Milfeddygon Swyddogol a dros hanner ein Harolygwyr Hylendid Cig.
- Mae'r dirwedd recriwtio bresennol ar gyfer Milfeddygon Swyddogol yn gofyn am ateb mwy cytbwys a gwydn.

Manteision:

- **Gwell llwybrau gyrfa**, gan arwain at recriwtio a chadw staff yn well.
- **Rheoli adnoddau yn well** trwy well dealltwriaeth o sgiliau a phrofiad ein pobl i'w halinio â rolau priodol.
- Bydd hyn hefyd yn galluogi'r ASB i gael **rhagor o sicrwydd** bod gennym ni'r bobl iawn ar waith a **gwella rheoli perfformiad** i gefnogi datblygiad gyrfa i'n pobl (trwy arallgyfeirio ac ati).
- **Gwella ymgysylltiad** trwy wella boddhad swydd o rôl mwy amrywiol a medrus a buddsoddi yn ein pobl.

Heriau:

- Gall rolau a chyfrifoldebau sy'n newid fod yn llai deniadol i rai pobl, gan effeithio'n andwyol ar gyfraddau cadw staff.
- Perygl y bydd costau uwch yn y tymor byr ond dylid gwrthbwysu'r rhain yn y dyfodol.



Ymgysylltu

Mae gan yr ASB sawl grŵp rhanddeiliaid y diwydiant wedi'u sefydlu, ac mae'r rhain eisoes wedi bod yn rhan o ymgysylltiad cynnar â'r gwaith hwn: Cyd-weithgor y Diwydiant, Gweithgor Partneriaeth, a'r Grŵp Lladd-dai Bach. Mae'r ASB hefyd wedi ymgysylltu ag adrannau perthnasol eraill y llywodraeth, cynrychiolwyr defnyddwyr a phartïon eraill â diddordeb.

Bydd sesiynau ymgysylltu pellach yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus anffurfiol gyda grwpiau rhanddeiliaid penodol i ganolbwyntio'n fanylach ar ein cynigion cynnar. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus ddod i ben, bydd yr holl ymatebion yn cael eu casglu a'u gwerthuso gan y timau Trawsnewid Gweithredol, Dadansoddi a Pholisi. Yna bydd yr ymatebion yn cael eu crynhoi a'u cyhoeddi ar wefan yr ASB. Defnyddir canlyniadau'r ymarfer i bennu'r camau nesaf wrth symud ymlaen â'r FDM.

Wrth i'r FDM ddatblygu ymhellach, bydd yr ASB yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid i ddilysu canfyddiadau a chreu opsiynau ar y cyd ar gyfer newid, gan ddefnyddio sianelau a fforymau ymgysylltu presennol lle bo hynny'n bosibl, a gweithdai a grwpiau ffocws ychwanegol. Wrth i ni ddatblygu agweddau ar yr FDM yn fwy manwl, byddwn ni'n cynnal ymgynghoriad pellach ar unrhyw opsiynau neu argymhellion cyn eu gweithredu.

Cwestiynau Cryno:

- 1. Ar ôl ystyried y cynnig cynnar ar gyfer Model Cyflenwi'r Dyfodol (FDM) yr ASB, a yw achos yr ASB dros newid yn glir i chi? Os na, beth yw'r meysydd a fyddai'n elwa o eglurhad pellach?**
- 2. Pa ganlyniadau a buddion cadarnhaol ydych chi'n teimlo y bydd yr FDM arfaethedig yn eu cyflawni?**
- 3. Amcanion y newidiadau a gynigir i'r model cyflenwi yw cynyddu cydymffurfiaeth, galluogi twf busnes a chynyddu hyder defnyddwyr. A yw'r dyheadau hyn wedi'u cyfleu'n glir? Ydych chi'n teimlo bod yr elfennau y manylir arnynt yma yn amlinellu'r dyheadau hyn yn ddigonol?**
- 4. Ar ôl gweld y saith egwyddor sy'n sail i'r FDM, a ydych chi'n teimlo bod unrhyw beth hanfodol ar goll neu a oes angen ei fynegi'n gliriach?**
- 5. Rydym ni'n cydnabod efallai y bydd angen i ni ystyried gweithredu cyfundrefnau cyflenwi pwrpasol ar gyfer cynhyrchu ac allforio domestig. Beth yn eich barn chi yw'r heriau allweddol gyda'r dull hwn?**
- 6. Fel parti â diddordeb, a ydych chi'n teimlo bod eich diddordebau'n cael eu hadlewyrchu yn y cynigion drafft hyn?**
- 7. Oes gennych chi unrhyw safbwyntiau, cwestiynau neu adborth arall yr hoffech chi eu rhannu gyda ni?**

Effeithiau

Gan nad ydym ni'n cynnig unrhyw newidiadau penodol ar hyn o bryd, nid ydym ni wedi cynnwys dadansoddiad buddiannau costau. Wrth i opsiynau penodol gael eu datblygu, byddwn ni'n ymgynghori ar y rhain a'u hasesu fel arfer safonol a bydd y dadansoddiad cost yn cael ei gynnwys bryd hynny.

Ymatebion

Rhaid i ymatebion ddod i law erbyn diwedd y dydd ar 23 Gorffennaf 2021. Yn eich ymateb, nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae'ch sefydliad yn eu cynrychioli).

Anfonwch eich ymatebion at OPT@food.gov.uk.

I gael gwybodaeth ar sut mae'r ASB yn trin eich data personol, edrychwch ar ein hysbysiad preifatrwydd yr Ymgynghoriad drwy: <https://www.food.gov.uk/about-us/privacy-notice-consultations>

Gwybodaeth bellach

Os oes angen fformat mwy hygyrch o'r ddogfen hon, anfonwch fanylion i'r enw cyswllt perthnasol a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Paratowyd yr ymgynghoriad hwn yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth EM](#)

Diolch ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn

Yr eiddoch,

Colin Sullivan

Prif Swyddog Gweithredol

Atodiad A: Rhestr o bawb sydd â diddordeb (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ond yn seiliedig ar ymgysylltiad blaenorol neu ddiweddar)

Defnyddwyr

- Grwp Defnyddwyr Which?
- Panel dinasyddion

Diwydiant

- Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)
- Cigyddion Crefft Cenedlaethol (NCB)
- Comisiwn Da Byw a Chig Gogledd Iwerddon (LMCNI)
- Cyngor Dofednod Prydain (BCP)
- Cymdeithas Allforio Cig Gogledd Iwerddon (NMEA)
- Cymdeithas Cyfanwerthwyr Cig yr Alban (SAMW)
- Cymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol (AIMS)
- Cymdeithas Foch Genedlaethol (NPA)
- Cymdeithas Masnach Cig Rhyngwladol (IMTA)
- Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain (BMPA)
- Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru (WLBP)
- Grŵp Sector Lladd-dai
- Hybu Cig Cymru (HCC)
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yr Alban (NFU yr Alban)
- Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
- Undeb Amaethwyr Ulster (UFU)
- Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru)
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
- Unison
- Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol (NSA)
- Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy

Sicrwydd trydydd parti

- Cymeradwyaeth Cyflenwyr Diogel a Lleol (SALSA)
- Sicrwydd RSPCA

- Tractor Coch

Cyrff Masnach a Phroffesiynol

- Coleg Brenhinol Llawfeddygon Milfeddygol (RCVS)
- Cymdeithas Arolygwyr Cig (AMI)
- Cymdeithas Iechyd Cyhoeddus Milfeddygol (VPHA)
- Cymdeithas Milfeddygol Prydain (BVA)
- Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI)
- Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH)

Adrannau'r Llywodraeth a Gweinyddiaethau Datganoledig

- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
- Cenhadaeth y DU (UKMIS)
- DAERA
- Defra (iechyd a lles anifeiliaid, masnach, adrannau SPS)
- Grŵp Ffocws Hylendid Bwyd Cenedlaethol (awdurdodau lleol)
- Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW)
- Iechyd Cyhoeddus Lloegr
- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth yr Alban
- Prif Swyddogion Milfeddygol (CVOs)
- Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru
- Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Gogledd Iwerddon
- Safonau Bwyd yr Alban
- Swyddfa'r Cabinet
- Yr Adran Masnach Ryngwladol (DIT)
- Ysgrifenyddiaeth Rhif 10 Ewrop

Rhyngwladol

- Partneriaid masnach rhyngwladol

Manwerthwyr

- Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC)
- Archfarchnadoedd mawr